

402 – Cyflwyniad / Sgwrs wedi'i recordio Bl 6 ac iau (D)

Unrhyw nifer

Thema – Helpu Eraill

Beirniad – Menna Charlton

402-1 – PARTI UWCH Y DYFFRYN

Criw ifanc bywiog. Syniad da o gyflwyno rhaglen radio. Hoff iawn o'r agoriad a'r clo ac enwau gwesteion y rhaglen. Y Sgwrs rhyngddynt yn llifo yn naturiol. Y thema yn glîr trwy'r cyflwyniad. Cystrawen eu hiaith yn dda ar y cyfan. Da iawn a diolch am eich cyflwyniad. Daliwch ati i sgwrsio yn Gymraeg

.

402-2 – YSGOL PEN Y DRE

Syniad da o ffilmio'r sgwrs gan ddangos bod dim sgript ac eich bod wedi dysgu eich geiriau. Hoffi'r syniad o ffilmio'r digwyddiad i ddangos y ffordd o helpu. Y thema yn glîr trwy'r cyflwyniad. Baswn wedi hoffi gweld gwyneb pawb yn y cyflwyniadau rhwng y digwyddiadau. Ambell ddisgybl ddim yn ynganu yn glîr ond cystrawennau eich hiaith yn dda ar y cyfan. Daliwch ati i sgwrsio yn Gymraeg.

Siomedig roeddwn mai dim ond dau grŵp cefais wrando arno. Dau grŵp da ac fe mwynheuais y ddau yn fawr iawn. Roedd yn anodd penderfynu ond mi ddyfarnaf y wobwr gyntaf i 402-1 criw y radio a'r ail wobwr i 402-2.

Diolch yn fawr a chariwch ymlaen i sgwrsio yn y Gymraeg. Mae dyfodol yr iaith yn dibynnu arnoch.